**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

6 Rhagfyr 2021

Cronfa Adferiad Diwylliannol

Annwyl Dawn,

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at nifer o leoliadau diwylliannol y mae eu sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn fregus iawn o ganlyniad i effaith barhaus y pandemig. Er bod llawer o leoliadau yn derbyn cyllid cyhoeddus yn ystod y pandemig, tynnwyd ein sylw at y ffaith y gallai gymryd misoedd neu flynyddoedd lawer i'w busnesau adfer i nifer o leoliadau annibynnol, a heb ymyrraeth mae'n bosibl na fydd rhai ohonynt yn goroesi.

Yn ein cyfarfod ar 24 Tachwedd 2021, gwnaethom ystyried tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Creu Cymru, National Theatre Wales a Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Yn ystod y sesiwn gyda'r sefydliadau hyn, nodwyd y canlynol:

- roedd adferiad o bandemig COVID-19 yn fater parhaus i'r sector;
- gallai gymryd 12-18 mis arall i adfer, yn dibynnu ar hyd y pandemig;
- mae recriwtio a dychwelyd gweithwyr llawrydd, yn ogystal â staff eraill a gollodd eu swyddi, i'r sector yn dal i fod yn bryder;
- mae'r pryderon yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol ac yn cynnwys cyfranogiad ymhlith pobl ifanc yn y celfyddydau, a allai fod â goblygiadau i weithlu'r sector yn y dyfodol.

O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector celfyddydau, hoffai'r Pwyllgor ofyn y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan Lywodraeth Cymru am incwm masnachol cyfartalog mewn lleoliadau diwylliannol o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig?
- A oes gennych unrhyw fwriad i gyhoeddi trydedd rownd o Gronfa Adferiad Diwylliannol? At hynny, a oes cyllid ar gael o fewn eich cyllideb adrannol i hwyluso hyn? Os felly, pryd y byddwch chi'n cyhoeddi hyn i'r sector? Ac os na, pa gymorth arall y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig?
- Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anecdotaidd o'r effaith negyddol ar bresenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol a chostau uwch i ddigwyddiadau (e.e. gofynion staffio diogelwch

> ychwanegol) yn dilyn ymestyn y pas COVID i'r sectorau hyn. Beth yw’r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan Lywodraeth Cymru am effaith pas COVID ar bresenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol a’i effaith ariannol ehangach? Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r sector i gydymffurfio â’r gofynion newydd hyn?

Fel yr amlygwyd gan nifer o ymatebwyr i ymchwiliad y Pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer y tymor Senedd hwn, mae cael mynediad i weithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn hynod bwysig i fynd i’r afael â nifer o heriau iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Gellid dadlau bod hyn wedi dod yn bwysicach fyth yn ystod y pandemig byd-eang. O ystyried hyn, byddem yn ddiolchgar am ymateb i’r cwestiynau hyn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**